# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1 - y Senedd**

Dyddiad: Dydd Llun, 29 Ebrill 2019

Amser: 13.16 - 15.45

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/5449

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Nick Ramsay AC (Cadeirydd)<br>Mohammad Asghar (Oscar) AC<br>Neil Hamilton AC<br>Rhianon Passmore AC<br>Adam Price AC<br>Jenny Rathbone AC |
| Tystion: | Dr Andrew Goodall, Llywodraeth Cymru<br>Simon Dean, Llywodraeth Cymru<br>Judith Paget, Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan |
| Swyddfa Archwilio Cymru: | Adrian Crompton - Archwilydd Cyffredinol Cymru<br>Stephen Lisle<br>Dave Thomas |
| Staff y Pwyllgor: | Fay Bowen (Clerc)<br>Meriel Singleton (Ail Glerc) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r Pwyllgor.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Vikki Howells AC. Ni chafwyd dirprwy ar eu rhan.

## 2 Papur(au) i'w nodi

2.1 Cafodd y papurau eu nodi.

**2.1 Gwasanaeth gofal sylfaenol y tu allan i oriau Gwybodaeth ychwanegol gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (Mawrth 2019)**

**2.2 Cyfoeth Naturiol Cymru: Diweddariad gan Lywodraeth Cymru ar weithrediad argymhellion yr adroddiad (Ebrill 2019)**

**2.3 Rheoli meddyginiaethau: Llythyr gan Lywodraeth Cymru (Ebrill 2019)**

## 3 Perthynas Llywodraeth Cymru â Pinewood: Ystyried ymateb Llywodraeth Cymru

3.1 Trafododd yr Aelodau yr ymateb a chytunwyd i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i gael copi o'r adroddiad ar yr hyn a ddysgwyd y cyfeiriwyd ato yn yr ymateb.

## 4 Gwasanaeth gofal sylfaenol y tu allan i oriau: Sesiwn dystiolaeth gyda Llywodraeth Cymru

4.1 Cafodd yr Aelodau dystiolaeth gan Dr Andrew Goodall, Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Phrif Weithredwr GIG Cymru, Simon Dean, Dirprwy Brif Weithredwr GIG Cymru, a Judith Paget, Prif Weithredwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan fel rhan o'r ymchwiliad i wasanaethau gofal sylfaenol y tu allan i oriau.

4.2 Cytunodd Dr Goodall i ddarparu gwybodaeth ychwanegol am:

- gwerthusiad y Bwrdd Gofal Sylfaenol o'r trefniadau a wnaed gan fyrddau iechyd i sicrhau bod y galw yn cael ei fodloni dros fisoedd y gaeaf
- y dangosyddion ansawdd sy'n cael eu monitro ar hyn o bryd

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y mater a ganlyn:

5.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 6 Gwasanaeth gofal sylfaenol y tu allan i oriau: Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law

6.1 Trafododd yr Aelodau'r dystiolaeth a ddaeth i law.

## 7 Arferion a gweithdrefnau gwaith y Pwyllgor

7.1 Trafododd yr Aelodau cylch gwaith y Pwyllgor a'i nodi.